

Cafodd y Cynghorydd ei urddo fel Maer Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful ar 14 Mehefin 2017.

Newydd ei ethol fel Cynghorydd y mae e, ac mae'n cynrychioli Rhanbarth Etholiadol Penydarren. Mae Kevin yn byw yn y Galon Uchaf gyda'i wraig Kerry a'u pedwar o blant.

Cafodd Kevin ei eni ym Merthyr Tudful a'i addysgu yn Ysgol Gynradd Sant Aloysius ac yna Ysgol Uwchradd Esgob Hedley.

Yn ystod ei yrfa, bu'r Maer yn gweithio ym Manc Barclays a bu'n codi arian i elusennau ar gyfer Follow Your Dreams a gweithio i Fanc Lloyds hefyd gan ymddeol oddi yno ym mis Mai 2017.

Fel Prif Ddinesydd y Fwrdeistref Sirol, mae dyletswyddau'r Cynghorydd Gibbs yn cynnwys cadeirio cyfarfodydd llawn y Cyngor, cynrychioli'r Cyngor mewn achlysuron ffurfiol a seremonïol, yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol. Bydd disgwyl hefyd i'r Maer groesawu ymwelwyr i'r Fwrdeistref Sirol a mynychu digwyddiadau chwaraeon a drefnwyd gan bobl leol a sefydliadau lleol.

Yn ystod ei flwyddyn yn y swydd, bydd y Maer yn brysur yn codi arian ar gyfer elusennau lleol o'i ddewis, sef Donation Station Merthyr Tydfil a Chymdeithas Genedlaethol Awtistiaeth – Merthyr Tudful. Bydd yr holl arian a godir yn mynd tuag at y gwaith gwych y mae'r elusennau ardderchog hyn yn ymgymryd ag e yn ein Bwrdeistref Sirol ac yn parhau i wneud hynny. Bydd yr holl arian a godir yn cael ei ddefnyddio er budd ein cymunedau'n unig, a bydd y Maer yn parhau i weithio'n agos at y ddwy elusen yn ystod ei flwyddyn faerol.

Y Dirprwy Faer yw'r Cynghorydd Clive Tovey.

I gysylltu â'r Maer:-

Swyddfa'r Maer  
Canolfan Ddinesig  
Stryd y Castell  
Merthyr Tudful  
CF47 8AN

Ffôn: 01685 725320

E-bost: [mayoral@merthyr.gov.uk](mailto:mayoral@merthyr.gov.uk)